**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(STRYDOEDD AMRYWIOL, TREFFOREST)**

**GORCHYMYN (DIRYMU, AMRYWIO, CYFYNGIADAU AROS A LLWYTHO,**

**MARCIAU 'YSGOL - CADWCH YN GLIR' A CHILFACH LLWYTHO) 2026**

## DATGANIAD O RESYMAU

Cyffordd Broadway a'r Ffordd Ddienw y tu ôl i Rif 29 hyd at ochr Rhif 94 Broadway, Trefforest:

Yn dilyn adolygu'r ardal, mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion i adnewyddu a ffurfioli'r cyfyngiadau presennol ar wahardd llwytho ar unrhyw adeg wrth gyffordd Broadway a'r Ffordd Ddienw y tu ôl i Rif 29 hyd at ochr Rhif 94 Broadway, Trefforest er mwyn:

- Hwyluso'r llwybr i gerbydau
- Osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd ac atal y tebygolrwydd y bydd perygl o'r fath yn codi

Byddai'r cyfyngiadau ar wahardd llwytho ar unrhyw adeg yn atal cerbydau rhag llwytho a dadlwytho yn y lleoliad sydd wedi'i effeithio. Ochr yn ochr â'r cyfyngiad ar wahardd aros ar unrhyw adeg, bydd y cyfyngiad llwytho arfaethedig yn helpu ymhellach i sicrhau bod y rhannau o'r ffordd sy'n cael eu heffeithio'n cael eu cadw'n glir o barcio, gan ei gwneud hi'n haws i gerbydau symud tra hefyd yn cynyddu gwelededd. Bydd y cynnydd mewn gwelededd yn caniatáu mwy o amser i yrwyr ymateb i beryglon sy'n dod tuag atyn nhw fel cerbydau neu gerddwyr, a'r rheiny sydd ar olwynion neu'n beicio megis y rhai sydd o bosibl yn mynd i Faes Chwarae Little Songbirds.

O ganlyniad, mae hyn yn cael ei gynnig er mwyn helpu i leihau'r perygl posibl i bersonau drwy wella gwelededd gyrwyr. Bydd gwelededd gwell yn rhoi mwy o amser i yrwyr ymateb i beryglon ar y briffordd megis cerbydau sy'n dod tuag atyn nhw

Broadway, Stryd y Parc, Stryd yr Afon a Ffyrdd Cyfagos, Trefforest:

Mae adolygiad o'r ardal wedi nodi hefyd fod angen gwelliannau papur ychwanegol sy'n ymwneud â chyfyngiadau presennol yr ardal (heb unrhyw newidiadau ffisegol arfaethedig i'w gwneud ar y safle). O ganlyniad, mae'r newidiadau yma wedi'u cynnig er mwyn sicrhau bod modd i'r cyfyngiadau yma barhau i:

- Hwyluso'r llwybr i gerbydau
- Osgoi perygl i bobl neu draffig arall sy'n defnyddio'r ffordd ac atal y tebygolrwydd y bydd perygl o'r fath yn codi
- Cadw neu wella amwynderau'r ardal y mae'r ffordd yn rhedeg drwyddi

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(VARIOUS STREETS, TREFOREST)**

**(REVOCATION, VARIATION, WAITING AND LOADING RESTRICTIONS,**

**'SCHOOL KEEP CLEAR' MARKINGS AND LOADING BAYS) ORDER 2026**

## STATEMENT OF REASONS

The Junction of Broadway and The Unnamed Road at Rear of No. 29 To Side of No. 94 Broadway, Treforest:

Following a review of the area, The Council has developed proposals to refresh and formalise the existing prohibition of loading at any time restrictions at the junction of Broadway and The Unnamed Road at Rear of No. 29 To Side of No. 94 Broadway, Treforest in order to:

- Facilitate the passage on the road for vehicles
- Avoid danger to persons or other traffic using the road and to prevent the likelihood of such danger arising

The prohibition of loading at any time restrictions would prevent vehicles from loading and unloading at the affected location. Alongside the existing prohibition of waiting at any time restriction, the proposed loading restriction will further help to ensure that the affected lengths are kept clear of parking, making it easier for vehicles to manoeuvre said lengths whilst also increasing visibility. The increase in visibility will allow drivers more time to react to oncoming hazards such as oncoming vehicles or those walking, wheeling and cycling such as those that may be accessing the Little Songbirds Playground.

This is therefore proposed to assist in reducing likelihood of danger to persons arising by increasing visibility for drivers. Increased visibility will provide drivers with more time to react to hazards on the highway such as oncoming vehicles

Broadway, Park Street, River Street & Adjoining Roads, Treforest:

The review of the area has also identified that paper-based amendments relating to existing restrictions in area are required (with no physical changes to be made on site). These changes are therefore proposed to ensure that these restrictions may continue to:

- Facilitate the passage on the road for vehicles
- Avoid danger to persons or other traffic using the road and to prevent the likelihood of such danger arising
- Preserve or improve the amenities of the area through which the road runs